


Yr Eglwys yng Nghymru

YR ORDINAL AMGEN




ALTERNATIVE ORDINAL

The Church in Wales

GORFFENNAF / JULY 2004

Yr Eglwys yng Nghymru

YR ORDINAL AMGEN



ALTERNATIVE ORDINAL

The Church in Wales

GORFFENNAF / JULY 2004

CYNNWYS


| | Tudalen |
|--|----------------|
| † Trefn ar Gyfer Ordeinio Diaconiaid yn Y Cymun Bendigaid | 1 |
| Strwythur | 3 |
| Gwasanaeth | 5 |
| † Trefn ar Gyfer Ordeinio Offeinio yn Y Cymun Bendigaid | 11 |
| Strwythur | 13 |
| Gwasanaeth..... | 15 |
| † Trefn ar Gyfer Ordeinio Diaconiaid ac Offeinio yn Y Cymun Bendigaid | 21 |
| Strwythur | 23 |
| Gwasanaeth | 25 |
| † Trefn ar Gyfer Cysegru Esgob yn Y Cymun Bendigaid | 33 |
| Strwythur | 35 |
| Gwasanaeth | 37 |

CONTENTS

| | Page |
|---|-------------|
| † An Order for the Ordination of Deacons at The Holy Eucharist | 1 |
| Structure | 3 |
| Service | 5 |
| † An Order for the Ordination of Priests at The Holy Eucharist | 11 |
| Structure | 13 |
| Service | 15 |
| † An Order for the Ordination of Deacons and Priests at The Holy Eucharist | 21 |
| Structure | 23 |
| Service | 25 |
| † An Order for the Consecration of a Bishop at The Holy Eucharist | 33 |
| Structure | 35 |
| Service | 37 |

Yr Eglwys yng Nghymru

**TREFN AR GYFER
ORDEINIO DIACONIAID
YN Y CYMUN BENDIGAID**



**AN ORDER FOR
THE ORDINATION OF DEACONS
AT THE HOLY EUCHARIST**

The Church in Wales

2004

STRWYTHUR

1. Y Dyfod Ynghyd

- † Cyfarchiad
- † Gweddi
- † Rhagarweiniad
- † Cyflwyniad [*Gweler tudalen 5 a 6*]
- † Gloria in Excelsis
- † Colect

2. Cyhoeddi'r Gair

- † Darlleniad o'r Hen Destament
- † Salm
- † Darlleniad o'r Testament Newydd
- † Efengyl
- † Pregeth
- † Cadarnhau'r Ffydd

3. Yr Ordeinio

- † Cyflwyniad [*Gweler tudalen 5 a 6*]
- † Siars
- † Arholi
- † Litani
- † Ordeinio
- † Arwisgo
- † Cyflwyno'r Testament Newydd

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

- † Cymryd y Bara a'r Gwin
- † Gweddi Ewcharistaidd

6. Y Cymun

- † Torri'r Bara
- † Y Cymun

7. Yr Anfon Allan

STRUCTURE

1. **The Gathering**

- † Greeting
- † Prayer
- † Introduction
- † Presentation [See *pages 5 and 6*]
- † Gloria in Excelsis
- † Collect

2. **The Proclamation of The Word**

- † Old Testament Reading
- † Psalm
- † New Testament Reading
- † Gospel
- † Sermon
- † Affirmation of Faith

3. **The Ordination**

- † Presentation [See *pages 5 and 6*]
- † Charge
- † Examination
- † Litany
- † Ordination
- † Vesting
- † Presentation of the New Testament

4. **The Peace**

5. **The Thanksgiving**

- † Taking the Bread and Wine
- † Eucharistic Prayer

6. **The Communion**

- † Breaking of the Bread
- † Communion

7. **The Sending Out**

ORDEINIO DIACONIAID

I. Y Dyfod Ynghyd

† **Cyfarchiad**

† **Gweddi**

† **Rhagarweiniad**

Eistedd

Esgob:

Frodyr a chwirydd, Corff Crist, pobl Dduw a phreswylfod yr Ysbryd Glân ydyw'r Eglwys. Gelwir pawb a unwyd â Christ trwy fedydd i'w wasanaethu yn yr Eglwys ac yn y byd.

Oddi mewn i'r weinidogaeth hon a ymddiriedodd Crist i'w Eglwys, gelwir diaconiaid i gynorthwyo'r esgob a'r offeiriaid ac, mewn gwasanaeth cariadlon, i hysbysu Crist trwy air ac esiempl.

Daethom ynghyd heddiw i ordeinio i urdd diacon [EE], y credwn i Dduw eu galw i'r weinidogaeth hon.

Byddwn yn gweddio drostynt ac yn arddodi dwylo arnynt, gan alw am gymorth yr Ysbryd Glân fel y bydd iddynt weithio'n ffyddlon ymhlith pobl Dduw.

Byddwn yn eu gwisgo â gwisg diacon ac yn cyflwyno iddynt arwyddion allanol y weinidogaeth a ymddiriedir iddynt.

† **Cyflwyniad**

[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu'n union cyn y Siars Ordeinio. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]

Dywed yr esgob wrth yr ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith diacon yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Gloria in Excelsis**

† **Colect**

THE ORDINATION OF DEACONS

I. The Gathering

† **Greeting**

† **Prayer**

† **Introduction**

Sit

Bishop:

Brothers and sisters, the Church is the Body of Christ, the people of God and the dwelling-place of the Holy Spirit. All who are united with Christ through baptism are called to serve him in the Church and in the world.

Within this ministry entrusted by Christ to his Church, deacons are called to assist the bishop and priests and through loving service, to make Christ known by word and example.

We have come together today to ordain [NN] to the order of deacon whom we believe God has called to his ministry.

We will pray for *them* and lay hands upon *them*, invoking the Holy Spirit that *they* may work faithfully among God's people.

We will clothe them with the vesture of a deacon and present them with the outward sign of the ministry which will be entrusted to them.

† **Presentation** *[The Presentation may take place here, or immediately before the Ordination Charge. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a deacon in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **Gloria in Excelsis**

† **Collect**

2. Cyhoeddi'r Gair

- † **Darlleniad o'r Hen Destament**
- † **Salm**
- † **Darlleniad o'r Testament Newydd**
- † **Efengyl**
- † **Pregeth**
- † **Cadarnhau'r Ffydd**

3. Yr Ordeinio

Eistedd

- † **Cyflwyniad** *[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu ar ôl y Rhagarweiniad. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]*

Dywed yr esgob wrth yr ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith diacon yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Y Siars**

Bydd yr esgob yn annerch y rhai sydd i'w hordeinio:

Gelwir diaconiaid i wasanaethu Eglwys Dduw ac i ofalu am bawb y maent yn eu gwasanaethu, yn arbennig y tlawd a'r claf a'r sawl sydd mewn angen ac adfyd. Y maent i drugarhau wrth y gwan a'r unig, a'r gorthrymedig a'r diymadferth. Y maent i bregethu Gair Duw ac i gydweithio â'r esgob a'r offeiriaid i arwain addoliad y bobl, yn enwedig yn y Bedydd a'r Cymun Bendigaid. Y maent i fod yn ddiwyd mewn gwaith bugeiliol ac mewn gwasanaeth i'r gymuned.

Y mae'r rhai a alwyd i fod yn ddiaconiaid wedi eu galw i swydd hynafol yn yr Eglwys. Yr ydych i fod yn arwyddion ymhlith pobl Dduw fod yr Eglwys wedi'i galw i wasanaethu Crist yn y byd. Yr ydych i gofio ddarfod i lesu olchi traed ei ddisgyblion a gorchymyn i ni ddilyn ei esiampl. Cofiwch hefyd eich bod, trwy wasanaethu eraill, yn gwasanaethu'r Arglwydd ei hun.

Fy mrodyr a'm chwiorydd, gweddiwch yn ddi-baid. Llafuriwch yng ngwasanaeth yr Arglwydd. Ymwrolwch. Na ddioddefed neb am i chwi fod yn esgeulus. Gwasanaethwch Eglwys Crist. Adeiladwch Deyrnas Dduw. Llawnhewch yn yr Arglwydd.

2. The Proclamation of The Word

† **Old Testament Reading**

† **Psalm**

† **New Testament Reading**

† **Gospel**

† **Sermon**

† **Affirmation of Faith**

3. The Ordination

Sit

† **Presentation** *[The Presentation may take place here, or immediately after the Introduction. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a deacon in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **The Charge**

The bishop addresses those to be ordained:

Deacons are called to serve the Church of God and to care for all whom they serve, especially the poor, the sick, the needy and those who are in trouble. They should have compassion for the weak and lonely and those who are oppressed and powerless. They are to preach the word of God and to work with the bishop and priests in leading the worship of the people, especially at Baptism and the Holy Eucharist. They are to be diligent in pastoral work and in service to the community.

Those who are called to be deacons are called to an ancient office within the Church. You are to be signs among the people of God that the Church is called to serve Christ in the world. You are to remember that Jesus washed his disciples' feet and commanded us to follow his example. Remember also that in serving others you are serving the Lord himself.

My brothers and sisters: pray without ceasing; labour in the Lord's service; be of good courage; let no one suffer hurt through your neglect; serve the Church of Christ; build the Kingdom of God; rejoice in the Lord.

† Yr Arholi

Cyn eich derbyn i urdd diacon, gofynnaf i chwi ddatgan eich ymrwymiad i'r weinidogaeth hon ac i'r ffordd hon o fyw. Felly, gofynnaf:

A ydych yn derbyn bod yr Ysgrythyr Lân yn cynnwys popeth angenrheidiol i iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd?

Ateb: Ydwyf.

A ydych yn credu athrawiaethau'r ffydd Gristnogol fel y derbyniodd yr Eglwys yng Nghymru hwy, ac a gynhalwch chwi hwy?

Ateb: Yr wyf yn eu credu ac fe'u cynhaliaf.

A fyddwch chwi yn ffyddlon a diwyd yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn cynorthwyo i weinyddu sacramentau'r Cyfamod Newydd?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi fyddaf.

A wnewch chwi ymroi i weddio ac i astudio'r Ysgrythur Lân, ac a wnewch chwi barhau i'ch cymhwyso eich hunain ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi dderbyn disgyblaeth yr Eglwys a rhoi dyledus barch i'r rhai a osodwyd mewn awdurdod arnoch?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi ymdrechu i hyrwyddo undod, tangnefedd a chariad ymhlith y rhai y byddwch yn eu gwasanaethu, ac a wnewch chwi arwain trwy anogaeth ac esiampl?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi gydweithio â'r esgob a'r offeiriaid a holl bobl Dduw i gynorthwyo'r Eglwys i ddirnad anghenion a phryderon a gobeithion y byd?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydded i Dduw, a wŷr gyfrinachau eich calonnau, roi i chwi'r nerth, trwy rym yr Ysbryd Glân, i wneud yr holl bethau hyn. **Amen.**

Bydd yr esgob yn annerch y gynulleidfa:

Bobl Dduw, a ydych yn credu ac yn ymddiried bod y personau hyn yn deilwng i'w hordeinio? **Credwn eu bod yn deilwng. I Dduw y bo'r diolch.**

A wnewch chwi eu cefnogi yn eu gweinidogaeth? **Fe'u cefnogwn.**

† The Examination

Before you are admitted to the order of deacons, I ask you to affirm your commitment to this ministry and way of life. Therefore I ask:

Do you accept the Holy Scriptures as containing all things necessary for salvation through Jesus Christ our Lord?

Answer: I do.

Do you believe the doctrines of the Christian faith as the Church in Wales has received them, and will you uphold them?

Answer: I believe them and will uphold them.

Will you be faithful and diligent in proclaiming the Gospel and assisting in the celebration of the sacraments of the New Covenant?

Answer: By the help of God, I will.

Will you be diligent in prayer, in studying the Holy Scriptures and in continuing to equip yourself for ministry in the Church?

Answer: By the help of God, I will.

Will you accept the discipline of the Church and give due respect to those in authority?

Answer: By the help of God, I will.

Will you endeavour to promote unity, peace and love among those you serve, and to lead by encouragement and example?

Answer: By the help of God, I will.

Will you work with the bishop, priests and all God's people to help the church discern the needs, concerns and hopes of the world?

Answer: By the help of God, I will.

May God who knows the secrets of your hearts give you strength to do all these things through the power of the Holy Spirit. **Amen.**

The bishop addresses the congregation:

People of God, do you believe and trust that they are worthy to be ordained?

We trust that they are worthy: thanks be to God.

Will you support them in their ministry?

We will support them.

† **Y Litani neu Ymbiliad arall**

Penlinio

Dduw Dad,
trugarha wrthym.

Dduw Fab,
trugarha wrthym.

Dduw Ysbryd Glân,
trugarha wrthym.

Y Drindod sanctaidd, fendigaid, ogoneddus,
trugarha wrthym.

Rhag drygioni a phechod, Rhag balchder, rhodres a rhagrith;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Rhag diogi ac ariangarwch, Rhag trahauster a chaledwch calon;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Ar dy Eglwys, i'w sancteiddio a'i llenwi â chariad a gwirionedd;
ac i roddi iddi'r undod hwnnw a ewyllysi di,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bobl y byd ac ar arweinwyr y cenhedloedd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y claf a'r anghenus ac ar bawb sydd mewn unrhyw adfyd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bawb a fedyddiwyd ac sy'n ymdrechu i fyw Efengyl Crist,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar E, ein hesgob, ac ar bawb sy'n arwain Eglwys Dduw,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai a alwyd i fod yn ddiaconiaid,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai [*neu EE*] sydd i'w hordeinio heddiw, ac ar y rhai y byddant yn eu gwasanaethu,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Gan ymlawenhau yng nghymdeithas [*E*] a'th holl saint, cyflwynwn [*EE*], cyflwynwn ein hunain
a chyflwynwn ein gilydd i Grist ein Duw.

Bydd ysbaid o weddio distaw yn dilyn.

Esgob:

Arglwydd trugarog, clyw ni a bendithia ni, ac megis y gelwaist ni i'th wasanaeth, gwna ni'n
deilwng o'n galwad, trwy lesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Cenir y Veni Creator neu emyn arall sy'n ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân.

† **The Litany** or other Intercession

Kneel

God the Father,
have mercy on us.

God the Son,
have mercy on us.

God the Holy Spirit,
have mercy on us.

Holy, blessed and glorious Trinity,
have mercy on us.

From evil and sin, from pride, vanity and hypocrisy,
Good Lord, deliver us.

From idleness and love of money, from arrogance, and hardness of heart,
Good Lord, deliver us.

On your Church, to make it holy, to fill it with love and truth, and to grant it that unity which is your will,
Lord, send your Spirit.

On the people of the world and the leaders of the nations,
Lord, send your Spirit.

On those who are sick, needy and in any kind of distress,
Lord, send your Spirit.

On all who are baptized and strive to live the Gospel of Christ,
Lord, send your Spirit.

On [N] our bishop and all who lead the Church of God,
Lord, send your Spirit.

On those who are called to serve as deacons,
Lord, send your Spirit.

On those [or NN] who are to be ordained today and those whom they will serve,
Lord, send your Spirit.

Rejoicing in the fellowship of [N] and all your saints, we commit [NN], ourselves and one another to Christ our God.

A period of silent prayer follows.

Bishop:

Merciful Lord, hear us and bless us, and as you have called us to your service, make us worthy of our calling, through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The Veni Creator or another hymn invoking the Holy Spirit may be sung.

† Yr Ordeinio

Eistedd

Penlinia'r rhai sydd i'w hordeinio'n ddiagoniaid.

Bydd yr esgob yn estyn dwylo tuag atynt ac yn dweud:

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
Ac sy'n cadw ei addewid byth.

Drugarocaf Dduw, moliannwn di a bendithiwn di
am iti, yn dy gariad mawr tuag atom, anfon dy unig Fab Iesu Grist
i gymryd ffurf gwas ac i fyw yn ein plith.
Fe'i darostyngodd ei hun er ein mwyn,
gan fod yn ufudd hyd angau, ie angau ar groes.
Gan hynny, fe'i tra-dyrchefaist ef
a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.

Diolchwn iti, O Dad, am iti alw dy wasanaethyddion hyn
i rannu yn y weinidogaeth hon a ymddiriedaist i'th Eglwys.

Bydd yr esgob yn arddodi dwylo ar ben pob ymgeisydd, ac yn dweud:

Anfon dy Ysbryd Glân ar dy was [E]
i swydd a gwaith diacon yn dy Eglwys.

Wedi arddodi dwylo ar ben pob ymgeisydd, â'r esgob ymlaen:

Dduw cariadlon,
dyro i'th wasanaethyddion hyn ostyngaidrwydd, nerth a dyfalbarhad.
Megis y daeth dy Fab nid i'w wasanaethu ond i wasanaethu,
bydded iddynt fod yn ffyddlon mewn gwasanaeth,
yn barod i hyfforddi, yn ddiwyd mewn gweddi.
Bydded eu ffydd yn helaeth, a chariad yn sylfaen eu bywyd,
fel y ceisiant yn unig dy ogoniant di, yn awr ac am byth;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

† Arwisgo

Arwisgir y diaconiaid sydd newydd gael eu hordeinio ag ystola.

† Cyflwyno'r Testament Newydd

Dyry'r esgob y Testament Newydd i bob un ohonynt, a dweud:

Byddwch ffyddlon yn y weinidogaeth a ymddiriedir yn awr i chwi,
a gwasanaethwch bobl Dduw yn ei enw ef.

Bydd yr esgob yn cyflwyno'r diaconiaid sydd newydd gael eu hordeinio i'r bobl.

Sefyll

† **The Ordination**

Sit

Those who are to be ordained kneel.

The bishop stretches out his or her hands towards the candidates, and says:

Praise God who made heaven and earth,
Who keeps his promise for ever.

We praise and bless you, most merciful Father,
because in your love for us, you sent your only Son Jesus Christ
to take the form of a servant and to live among us.
He humbled himself for our sake,
and in obedience accepted death, even death on a cross;
therefore you highly exalted him
and gave him the name that is above every name.

So Father, we thank you that you have called these your servants
to share this ministry entrusted to your Church.

The bishop lays his or her hands on the head of each candidate, and says:

Send your Holy Spirit upon your servant [N]
for the office and work of a deacon in your Church.

When all have received the laying-on of hands, the bishop continues:

Loving Father,
give to these your servants humility, strength and perseverance.
As your Son came not to be served but to serve,
may they be faithful in service, ready to teach and constant in prayer.
May they abound in faith, be rooted in love and seek only your glory,
now and for ever;
through Jesus Christ our Lord,
who lives and reigns with you in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

† **Vesting**

The newly-ordained deacons are vested with a stole.

† **Presentation of the New Testament**

The bishop gives each deacon a New Testament, and says:

Be faithful in that ministry which is now entrusted to you,
and serve God's people in his name.

The bishop presents the newly-ordained to the people.

Stand

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

† **Cymryd y Bara a'r Gwin**

† **Gweddi Ewcharistaidd**

6. Y Cymun

† **Torri'r Bara**

† **Y Cymun**

7. Yr Anfon Allan

4. The Peace

5. The Thanksgiving

† **Taking the Bread and Wine**

† **Eucharistic Prayer**

6. The Communion


† **Breaking of the Bread**

† **Communion**

7. The Sending Out

Yr Eglwys yng Nghymru

**TREFN AR GYFER
ORDEINIO OFFEIRIAID
YN Y CYMUN BENDIGAID**



**AN ORDER FOR
THE ORDINATION OF PRIESTS
AT THE HOLY EUCHARIST**

The Church in Wales

2004

STRWYTHUR

1. Y Dyfod Ynghyd

- † Cyfarchiad
- † Gweddi
- † Ragarweiniaid
- † Cyflwyniad [Gweler tudalen 15 a 16]
- † Gloria in Excelsis
- † Colect

2. Cyhoeddi'r Gair

- † Darlleniad o'r Hen Destament
- † Salm
- † Darlleniad o'r Testament Newydd
- † Efengyl
- † Pregeth
- † Cadarnhau'r Ffydd

3. Yr Ordeinio

- † Cyflwyniad [Gweler tudalen 15 a 16]
- † Siars
- † Arholi
- † Litani
- † Ordeinio
- † Arwisgo [Eneinio]
- † Cyflwyno'r Ysgrythurau, y Cwpan a'r Plât

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

- † Cymryd y Bara a'r Gwin
- † Gweddi Ewcharistaidd

6. Y Cymun

- † Torri'r Bara
- † Y Cymun

7. Yr Anfon Allan

STRUCTURE

1. The Gathering

- † Greeting
- † Prayer
- † Introduction
- † Presentation *[see pages 15 and 16]*
- † Gloria in Excelsis
- † Collect

2. The Proclamation of The Word

- † Old Testament Reading
- † Psalm
- † New Testament Reading
- † Gospel
- † Sermon
- † Affirmation of Faith

3. The Ordination

- † Presentation *[see pages 15 and 16]*
- † Charge
- † Examination
- † Litany
- † Ordination
- † Vesting [Anointing]
- † Presentation of the Scriptures, Chalice and Paten

4. The Peace

5. The Thanksgiving

- † Taking the Bread and Wine
- † Eucharistic Prayer

6. The Communion

- † Breaking of the Bread
- † Communion

7. The Sending Out

ORDEINIO OFFEIRIAD

I. Y Dyfod Ynghyd

† **Cyfarchiad**

† **Gweddi**

† **Rhagarweiniad**

Eistedd

Esgob:

Frodyr a chwirydd, Corff Crist, pobl Dduw a phreswylfod yr Ysbryd Glân ydyw'r Eglwys. Gelwir pawb a unwyd â Christ trwy fedydd i'w wasanaethu yn yr Eglwys ac yn y byd.

Oddi mewn i'r weinidogaeth hon, a ymddiriedodd Crist i'w Eglwys, gelwir offeiriaid i gydweithio â'r esgob i sancteiddio ac i addysgu ac i oruchwyllo yng nghymuned y ffydd.

Deathom ynghyd heddiw i ordeinio i urdd offeiriad [EE], y credwn i Dduw eu galw i'r weinidogaeth hon.

Byddwn yn gweddi drostynt ac yn arddodi dwylo arnynt, gan ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân, fel y bo iddynt weithio'n ffyddlon ymhlith pobl Dduw.

Byddwn yn eu gwisgo â gwisg offeiriad, ac yn cyflwyno iddynt arwyddion allanol y weinidogaeth a ymddiriedir iddynt.

Byddwn yn eu croesawu i wasanaethu gyda'u hesgob a'u cyd-offeiriaid yn y gwaith o gyhoeddi'r efengyl, gweinyddu'r sacramentau, gwasanaethu pobl Dduw ac adeiladu teyrnas Dduw.

† **Cyflwyniad**

[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu'n union cyn y Siars Ordeinio. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]

Dywed yr esgob wrth yr ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith offeiriad yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Gloria in Excelsis**

† **Colect**

THE ORDINATION OF PRIESTS

I. The Gathering

† **Greeting**

† **Prayer**

† **Introduction**

Sit

Bishop:

Brothers and sisters, the Church is the Body of Christ, the people of God and the dwelling-place of the Holy Spirit. All who are united with Christ through baptism are called to serve him in the Church and in the world.

Within this ministry, entrusted by Christ to his Church, priests are called to work with the bishop to sanctify, to teach and to exercise oversight within the community of faith.

We have come together today to ordain [NN] to the order of priests whom we believe God has called to this ministry.

We will pray for them and lay hands upon them, invoking the Holy Spirit that they may work faithfully among God's people.

We will clothe them with the vesture of priests and present them with the outward signs of the ministry which will be entrusted to them.

We will welcome the new priests to serve with their bishop and fellow priests in proclaiming the gospel, celebrating the sacraments, serving God's people and building the kingdom of God.

† **Presentation** *[The presentation may take place here, or immediately before the Ordination Charge. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a priest in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **Gloria in Excelsis**

† **Collect**

2. Cyhoeddi'r Gair

- † **Darlleniad o'r Hen Destament**
- † **Salm**
- † **Darlleniad o'r Testament Newydd**
- † **Efengyl**
- † **Pregeth**
- † **Cadarnhau'r Ffydd**

3. Yr Ordeinio

Eistedd

- † **Cyflwyniad** *[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu ar ôl y Rhagarweiniad. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]*

Dywed yr esgob wrth yr ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith diacon yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Y Siars**

Bydd yr esgob yn annerch yr ymgeiswyr sydd i'w hordeinio:

Gelwir offeiriaid yn Eglwys Dduw i gydweithio â'u hesgob a'u cyd-offeiriaid a holl bobl Dduw fel gweision a bugeiliaid.

Yr ydych i gyhoeddi Gair yr Arglwydd, galw pobl i edifarhau, a rhoi gollyngdod, yn enw Crist, i'r sawl sy'n edifeiriol.

Yr ydych i fendithio a bedyddio, a llywyddu yn y Cymun Bendigaid.

Yr ydych i ddysgu'r ffydd a gawsom gan yr Apostolion a'i chyhoeddi o'r newydd.

Yr ydych i arwain pobl Dduw i sancteiddrwydd buchedd, a hyrwyddo gweinidogaeth holl bobl Dduw.

Yr ydych i anturio o'r newydd mewn cenhadaeth, a gweithio dros heddwch a chyfiawnder.

Yr ydych i weinidogaethu i'r claf a pharatoi'r rhai sy'n marw at eu marwolaeth.

Yr ydych i weddio ac geryddu, i gynghori ac i annog, ac i arwain pobl Dduw trwy demtasiynau a dryswch y byd hwn fel y caffont eu hachub trwy Grist am byth.

2. The Proclamation of The Word

- † **Old Testament Reading**
- † **Psalm**
- † **New Testament Reading**
- † **Gospel**
- † **Sermon**
- † **Affirmation of Faith**

3. The Ordination

Sit

- † **Presentation** *[The Presentation may take place here, or immediately after the Introduction. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], Do you believe that God has called you to the office and work of a priest in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **The Charge**

The bishop addresses those to be ordained:

Priests in the Church of God are called to work with their bishop, their fellow priests and all the people of God as servants and shepherds.

You are to proclaim the Word of the Lord, to call people to repentance, and in Christ's name to absolve those who are penitent.

You are to bless, baptize and preside at the Holy Eucharist.

You are to teach the faith that comes to us from the Apostles and proclaim it afresh.

You are to lead the people of God into holiness of life, and encourage the ministry of all God's people.

You are to explore new ventures in mission and work for peace and justice.

You are to minister to the sick and prepare the dying for their death.

You are to pray and to admonish, to counsel and encourage, and guide God's people through the temptations and confusions of this world, that they may be saved through Christ for ever.

Cofiwch yn ddiolchgar eich bod yn rhannu'r weinidogaeth hon a ymddiriedir i chwi â'i weinidogaeth Ef a fu farw ar y groes. Bydd yn gofyn am aberth a daw dioddefaint yn ei sgîl, ond o'i byw'n ffyddlon, fe ddaw hefyd â llawenydd a tangnefedd i chwi. Bydd arnoch angen penderfyniad a dyfalbarhad, a chan na allwch gyflawni'r weinidogaeth hon o'ch nerth eich hunain, gweddiwch y bydd i'r Arglwydd adnewyddu eich galwad beunydd fel y galloch ddilyn y Bugail Da i ba le bynnag y bydd ef yn arwain.

Fy mrodyr a'm chwiorydd, gweddiwch yn ddi-baid. Llafuriwch yng ngwasanaeth yr Arglwydd. Ymwrolwch. Na ddioddefed neb am i chwi fod yn esgeulus. Gwasanaethwch Eglwys Crist. Adeiladwch Deyrnas Dduw. Llawenhewch yn yr Arglwydd.

† Yr Arholi

Cyn eich derbyn i urdd offeiriad, gofynnaf i chwi ddatgan eich ymrwymiad i'r weinidogaeth hon ac i'r ffordd hon o fyw. Felly, gofynnaf:

A ydych yn derbyn bod yr Ysgrythur Lân yn cynnwys popeth angenrheidiol i iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd?

Ateb: Ydwyf.

A ydych yn credu athrawiaethau'r ffydd Gristnogol fel y debyniodd yr Eglwys yng Nghymru hwy, ac a gynhaliwch chwi hwy?

Ateb: Yr wyf yn eu credu ac fe'u cynhaliaf.

A fyddwch chwi yn ffyddlon a diwyd yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn gweinyddu sacramentau'r Cyfamod Newydd?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi fyddaf.

A wnewch chwi ymroi i weddio ac i astudio'r Ysgrythur Lân, ac a wnewch chwi barhau i'ch cymhwyso eich hunain ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chi dderbyn disgyblaeth yr Eglwys a rhoi dyledus barch i'r rhai a osodwyd mewn awdurdod arnoch?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi ymdrechu i hyrwyddo undod, tangnefedd a chariad ymhlith y rhai y byddwch yn eu gwasanaethu, ac a wnewch chwi arwain trwy anogaeth ac esiampl?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi gydweithio â'ch esgob, eich cyd-offeiriaid a diaconiaid, a holl bobl Dduw i ddatblygu cenhadaeth yr Eglwys?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi geisio adnabod ym mhobl Dduw y doniau a roddodd ef iddynt, fel y cymhwysir pob aelod i waith y weinidogaeth ac yr adeiledir felly mewn cariad gorff Crist?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydded i Dduw, a wŷr gyfrinachau eich calonau, roi i chwi'r nerth i wneud yr holl bethau hyn, trwy rym yr Ysbryd Glân. **Amen.**

Remember with thanksgiving that this ministry now to be entrusted to you is a sharing in the ministry of him who died on the cross. It will require sacrifice and bring suffering, but, lived faithfully, it will also bring you joy and peace. You will need determination and perseverance, and because you cannot fulfil this ministry in your own strength, pray that each day the Lord will renew your calling that you may follow the Good Shepherd wherever he leads.

My brothers and sisters: pray without ceasing; labour in the Lord's service; be of good courage; let no one suffer hurt through your neglect; serve the Church of Christ; build the Kingdom of God; rejoice in the Lord.

† The Examination

Before you are admitted to the order of priests, I ask you to affirm your commitment to this ministry and way of life. Therefore I ask:

Do you accept the Holy Scriptures as containing all things necessary for salvation through Jesus Christ our Lord?

Answer: I do.

Do you believe the doctrines of the Christian faith as the Church in Wales has received them, and will you uphold them?

Answer: I believe them and will uphold them.

Will you be faithful and diligent in proclaiming the Gospel and in celebrating the sacraments of the New Covenant?

Answer: By the help of God, I will.

Will you be diligent in prayer, in studying the Holy Scriptures and in continuing to equip yourself for ministry in the Church?

Answer: By the help of God, I will.

Will you accept the discipline of the Church and give due respect to those set in authority over you?

Answer: By the help of God, I will.

Will you endeavour to promote unity, peace and love among those you serve, and to lead by encouragement and example?

Answer: By the help of God, I will.

Will you work with the bishop, your fellow priests and deacons and all God's people to develop the mission of the Church?

Answer: By the help of God, I will.

Will you seek to recognise in God's people the gifts he has given to them, that every member may be equipped for the work of ministry so that the body of Christ may be built up in love.

Answer: By the help of God, I will.

May God who knows the secrets of your heart give you strength to do all these things through the power of the Holy Spirit. **Amen**

Bydd yr esgob yn annerch y gynulleidfa:

Bobl Dduw, a ydych yn credu ac yn ymddiried bod y *personau hyn* yn deilwng i'w hordeinio?
Credwn eu bod yn deilwng. I Dduw y bo'r diolch.

A wnewch chwi eu cefnogi yn eu gweinidogaeth?
Fe'u cefnogwn.

† **Litani** neu Ymbiliad arall

Penlinio

Dduw Dad,
trugarha wrthym.

Dduw Fab,
trugarha wrthym.

Dduw Ysbryd Glân
trugarha wrthym.

Y Drindod sanctaidd, fendigaidd, ogoneddus,
trugarha wrthym.

Rhag drygioni a phechod, rhag balchder, rhodres a rhagrith;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Rhag diogi ac ariangarwch, rhag trahauster a chaledwch calon;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Ar dy Eglwys, i'w sancteiddio, a'i llenwi â chariad a gwirionedd;
Ac i roddi iddi'r undod hwnnw a ewyllysi di.
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bobl y byd ac ar arweinwyr y cenhedloedd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y claf a'r anghenus ac ar bawb sydd mewn unrhyw adfyd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bawb a fedyddiwyd ac sy'n ymdrechu i fyw Efengyl Crist,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar [E], ein hesgob, ac ar bawb sy'n arwain Eglwys Dduw,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai a alwyd i fod yn offeiriaid,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai [neu EE] sydd i'w hordeinio heddiw, ac ar y rhai y byddant yn eu gwasanaethu,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Gan ymlawenhau yng nghymdeithas [E] a'th holl saint, cyflwynwn [EE], cyflwynwn ein hunain,
a chyflwynwn ein gilydd i Grist ein Duw.

Bydd saib yn dilyn ar gyfer gweddi ddistaw.

Esgob:

Arglwydd trugarog, clyw ni a bendithia ni, ac megis y gelwaist ni i'th wasanaeth, gwna ni'n deilwng o'n galwad, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

Gellir canu'r Veni Creator neu emyn arall sy'n ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân.

The bishop addresses the congregation:

People of God, do you believe and trust that they are worthy to be ordained?
We trust that they are worthy: thanks be to God.

Will you support *them* in *their* ministry?
We will support them.

† **The Litany** *or* other Intercession

Kneel

God the Father,
have mercy on us.

God the Son,
have mercy on us.

God the Holy Spirit,
have mercy on us.

Holy, blessed and glorious Trinity,
have mercy on us.

From evil and sin, from pride, vanity and hypocrisy,
Good Lord, deliver us.

From idleness and love of money, from arrogance, and hardness of heart,
Good Lord, deliver us.

On your Church, to make it holy, to fill it with love and truth, and to grant it that unity which is your will,
Lord, send your Spirit.

On the people of the world and the leaders of the nations,
Lord, send your Spirit.

On those who are sick, needy and in any kind of distress,
Lord, send your Spirit.

On all who are baptized and strive to live the Gospel of Christ,
Lord, send your Spirit.

On *N* our Bishop and all who lead the Church of God,
Lord, send your Spirit.

On those who are called to serve as priests,
Lord, send your Spirit.

On those [*or NN*] who are to be ordained today and those whom they will serve
Lord, send your Spirit.

Rejoicing in the fellowship of [*N*] and all your saints, we commit [*NN*], ourselves and one another to Christ our God.

A period of silent prayer follows.

Bishop:

Merciful Lord, hear us and bless us, and as you have called us to your service, make us worthy of our calling, through Jesus Christ our Lord. **Amen**

The Veni Creator or another hymn invoking the Holy Spirit may be sung.

† **Yr Ordeinio**

Eistedd

Saif yr esgob gyda'r offeiriad sy'n cynorthwyo; bydd yr ymgeiswyr yn penlinio.

Bydd yr esgob yn estyn dwylo at yr ymgeiswyr ac yn dweud:

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
Ac sy'n cadw ei addewid am byth.

Arglwydd ein Duw, rhoddwn iti ddiolch a moliant
am iti, yn dy gariad mawr, ffurfio trwy'r byd
bobl sanctaidd yn eiddo i ti dy hun,
offeiriadaeth frenhinol, Eglwys gyffredinol.
Rhoddwn iti ddiolch a moliant
am alw dy bobl ym mhob oes i dystio i'th gariad achubol
ac i gyhoeddi newyddion da dy deyrnas.

Ac yn awr diolchwn iti am iti alw dy wasanaethyddion hyn
i rannu yng ngweinidogaeth sanctaidd Efengyl Crist,
Apostol ac Archoffeiriad ein ffydd a Bugail ein heneidiau.

Bydd yr esgob a'r offeiriad yn arddodi eu dwylo ar ben pob ymgeisydd.

Dywed yr esgob:

Anfon dy Ysbryd Glân ar dy was [E],
i swydd a gwaith offeiriad yn dy Eglwys.

Wedi i'r holl ymgeiswyr dderbyn arddodiad dwylo, â'r esgob ymlaen:

Dduw cariadlon, gelwaist dy wasanaethyddion hyn;
dyro iddynt galonnau tyner, doethineb a deall,
fel y cyflawnont y weinidogaeth hon yr ordeiniwyd hwy iddi.
Bydded iddynt fyw Efengyl iachawdwriaeth a'i chyhoeddi,
a dwyn iachâd i'r claf.
Bydded iddynt weinyddu'n ffyddlon sacramentau ein prynedigaeth,
a chyhoeddi maddeuant pechodau a bendithio yn dy enw.
Dyro iddynt amynedd a gobaith, tynerwch a dyfalbarhad,
i weithio gyda'th holl bobl,
fel y delo'r byd i adnabod dy ogoniant a'th gariad;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

† **The Ordination**

Sit

The bishop stands with the priests who are to assist him or her; the candidates kneel.

The bishop stretches out his or her hands towards the candidates and says:

Praise God who made heaven and earth,
Who keeps his promise for ever.

Lord our God, we give you thanks and praise,
because in your great love, you have formed throughout the world
a holy people for your own possession,
a royal priesthood, a universal Church.

We give you thanks and praise
for calling your people in every age to witness to your saving love
and to proclaim the good news of your kingdom.

And now we give you thanks that you have called these your servants
to share in the sacred ministry of Christ,
the Apostle and High Priest of our faith and the Shepherd of our souls.

The bishop and the priests lay their hands on the head of each candidate.

The bishop says:

Send your Holy Spirit upon your servant [N],
for the office and work of a priest in your Church.

When all have received the laying on of hands, the bishop continues:

Loving God, you have called these your servants;
Give them love, wisdom and understanding,
that they may carry out this ministry
to which they have been ordained.
May they live and proclaim the gospel of salvation
and bring healing to the sick.
May they faithfully celebrate the sacraments of our redemption
and absolve and bless in your name.
Give them patience and hope, gentleness and perseverance
to work with all your people,
that the world may come to know your glory and your love;
through Jesus Christ our Lord,
who lives and reigns with you in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen**

† **Arwisgo [Eneinio]**

Arwisgir yr offeiriaid sydd newydd gael eu hordeinio.

[Gall yr esgob eneinio eu dwylo ag olew crism a dweud:

Bydded i Dduw, a eneiiodd Grist ein Harglwydd yn ei fedydd â'r Ysbryd Glân, dy eneinio a'th alluogi i gymodi ei bobl a'u bendithio.]

† **Cyflwyno'r Ysgrythurau, y Cwpan a'r Plât**

Dyry'r esgob yn eu dwylo y Beibl a chwpan a phlât cymun, gan ddweud:

Bydd yn oruchwyliwr ffyddlon i Air Duw a'i sacramentau sanctaidd.

Bydd yr esgob yn cyflwyno'r rhai sydd newydd gael eu hordeinio i'r bobl.

Sefyll

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

† **Cymryd y Bara a'r Gwin**

† **Gweddi Ewcharistaidd**

6. Y Cymun

† **Torri'r Bara**

† **Y Cymun**

7. Yr Anfon Allan

† **Vesting [Anointing]**

The newly-ordained priests are vested.

[The bishop may anoint their hands with the oil of chrism and say:

God, who at the baptism of Christ our Lord anointed him with the Holy Spirit, anoint and empower you to reconcile and bless his people.]

† **Presentation of the Scriptures, Chalice and Paten**

The bishop places in their hands the Bible and a chalice and paten, saying:

Be a faithful steward of the word of God and of his holy sacraments.

The bishop presents the newly-ordained to the people.

Stand

4. The Peace

5. The Thanksgiving

† **Taking the Bread and Wine**

† **Eucharistic Prayer**

6. The Communion


† **Breaking of the Bread**

† **Communion**

7. The Sending Out

Yr Eglwys yng Nghymru

**TREFN AR GYFER ORDEINIO
DIACONIAID AC OFFEIRIAID
YN Y CYMUN BENDIGAID**



**AN ORDER FOR THE ORDINATION
OF DEACONS AND PRIESTS
AT THE HOLY EUCHARIST**

The Church in Wales

2004

STRWYTHUR

1. Y Dyfod Ynghyd

- † Cyfarchiad
- † Gweddi
- † Rhagarweiniad
- † Cyflwyniad [Gweler tudalen 24 a 25]
- † Gloria in Excelsis
- † Colect

2. Cyhoddî'r Gair

- † Darlleniad o'r Hen Destament
- † Salm
- † Darlleniad o'r Testament Newydd
- † Efengyl
- † Pregeth
- † Cadarnhau'r Ffydd

3. Yr Ordeinio

- † Cyflwyniad [Gweler tudalen 24 a 25]
- † Siars
- † Arholi
- † Litani
- † Ordeinio
 - *Diaconiad*
- † Arwisgo
- † Cyflwyno'r Ysgrythurau
 - *Offeiriad*
- † Arwisgo [Eneinio]
- † Cyflwyno'r Ysgrythurau, y Cwpan a'r Plât

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

- † Cymryd a Bara a'r Gwin
- † Gweddi Ewcharistaidd

6. Y Cymun

- † Torri'r Bara
- † Y Cymun

7. Yr Anfon Allan

STRUCTURE

1. The Gathering

- † Greeting
- † Prayer
- † Introduction
- † Presentation [see pages 24 and 25]
- † Gloria in excelsis
- † Collect

2. The Proclamation of The Word

- † Old Testament Reading
- † Psalm
- † New Testament Reading
- † Gospel
- † Sermon
- † Affirmation of Faith

3. The Ordination

- † Presentation [see pages 24 and 25]
- † Charge
- † Examination
- † Litany
- † Ordination
 - of Deacons
- † Vesting
- † Presentation of the Scriptures
 - of Priests
- † Vesting [Anointing]
- † Presentation of the Scriptures, Chalice and Paten

4. The Peace

5. The Thanksgiving

- † Taking the Bread and Wine
- † Eucharistic Prayer

6. The Communion

- † Breaking of the Bread
- † Communion

7. The Sending Out

ORDEINIO DIACONIAID AC OFFEIRIAID

I. Y Dyfod Ynghyd

† **Cyfarchiad**

† **Gweddi**

† **Rhagarweiniad**

Eistedd

Esgob:

Frodyr a chwirydd, Corff Crist, pobl Dduw a phreswylfod yr Ysbryd Glân ydyw'r Eglwys. Gelwir pawb a unwyd â Christ trwy fedydd i'w wasanaethu yn yr Eglwys ac yn y byd.

Oddi mewn i'r weinidogaeth hon, a ymddiriedodd Crist i'w Eglwys, gelwir diaconiaid i gynorthwyo'r esgob a'r offeiriaid, ac i hysbysu Crist mewn gwasanaeth cariadlon a thrwy air ac esiampl.

Gelwir offeiriaid i gydweithio â'r esgob i sancteiddio ac i addysgu ac i oruchwylio yng nghymuned y ffydd.

Daethom ynghyd heddiw i ordeinio i urdd diacon [EE], ac i urdd offeiriad [EE], y credwn i Dduw eu galw i'r weinidogaeth hon.

Byddwn yn gweddi drostynt ac yn arddodi dwylo arnynt, gan ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân, fel y bo iddynt weithio'n ffyddlon ymhlith pobl Dduw.

Byddwn yn eu gwisgo â gwisgoedd eu hurdd, ac yn cyflwyno iddynt arwyddion allanol y weinidogaeth a ymddiriedir iddynt.

Byddwn yn croesawu'r offeiriaid newydd i wasanaethu gyda'u hesgob a'u cyd-offeiriaid yn y gwaith o gyhoeddi'r efengyl, gweinyddu'r sacramentau, gwasanaethu pobl Dduw ac adeiladu teyrnas Dduw.

† **Cyflwyniad**

[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu'n union cyn y Siars Ordeinio. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]

Dywed yr esgob wrth yr ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith diacon/offeiriad yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Gloria in Excelsis**

† **Colect**

THE ORDINATION OF DEACONS AND PRIESTS

I. The Gathering

† **Greeting**

† **Prayer**

† **Introduction**

Sit

Bishop:

Brothers and sisters, the Church is the Body of Christ, the people of God and the dwelling-place of the Holy Spirit. All who are united with Christ through baptism are called to serve him in the Church and in the world.

Within this ministry, entrusted by Christ to his Church, deacons are called to assist the bishop and priests and, through loving service, to make Christ known by word and example.

Priests are called to work with the bishop to sanctify, to teach and to exercise oversight within the community of faith.

We have come together today to ordain [NN] to the order of deacons, and [NN] to the order of priests whom we believe God has called to these ministries.

We will pray for them and lay hands upon them, invoking the Holy Spirit that they may work faithfully among God's people.

We will clothe them with the vesture of their order and present them with the outward signs of the ministry which will be entrusted to them.

We will welcome the new priests to serve with their bishop and fellow priests in proclaiming the gospel, celebrating the sacraments, serving God's people and building the kingdom of God.

† **Presentation** *[The Presentation may take place here, or immediately before the Ordination Charge. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a deacon/priest in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **Gloria in Excelsis**

† **Collect**

2. Cyhoddî'r Gair

- † **Darlleniad o'r Hen Destament**
- † **Salm**
- † **Darlleniad o'r Testament Newydd**
- † **Efengyl**
- † **Pregeth**
- † **Cadarnhau'r Ffydd**

3. Yr Ordeinio

Eistedd

- † **Cyflwyniad** *[Gall y Cyflwyniad ddigwydd yma, neu ar ôl y Rhagarweiniad. Bydd yr esgob yn eistedd a bydd yr archddiacon neu rywun arall a awdurdodwyd yn cyflwyno'r ymgeiswyr i'r esgob wrth eu henwau.]*

Dywed yr esgob wrth y ymgeiswyr:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith diacon yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

† **Y Siars**

Bydd yr esgob yn annerch y rhai sydd i'w hordeinio'n ddiaconiaid:

Gelwir diaconiaid i wasanaethu Eglwys Dduw ac i ofalu am bawb y maent yn eu gwasanaethu, yn arbennig y tlawd a'r claf a'r sawl sydd mewn angen ac adfyd. Y maent i drugarhau wrth y gwan a'r unig, a'r gorthrymedig a'r diymadferth. Y maent i bregethu Gair Duw ac i gydweithio â'r esgob a'r offeiriaid i arwain addoliad y bobl, yn enwedig yn y Bedydd a'r Cymun Bendigaid. Y maent i fod yn ddiwyd mewn gwaith bugeiliol ac mewn gwasanaeth i'r gymuned.

Y mae'r rhai a alwyd i fod yn ddiaconiaid wedi eu galw i swydd hynafol yn yr Eglwys. Yr ydych i fod yn arwyddion ymhlith pobl Dduw fod yr Eglwys wedi'i galw i wasanaethu Crist yn y byd. Yr ydych i gofio ddarfod i lesu olchi traed ei ddisgyblion a gorchymyn i ni ddilyn ei esiampl. Cofiwch hefyd eich bod, trwy wasanaethu eraill, yn gwasanaethu'r Arglwydd ei hun.

2. The Proclamation of The Word

† **Old Testament Reading**

† **Psalm**

† **New Testament Reading**

† **Gospel**

† **Sermon**

† **Affirmation of Faith**

3. The Ordination

Sit

† **Presentation** *[The Presentation may take place here, or immediately after the Introduction. The bishop sits and the archdeacon or another duly appointed person presents the candidates by name to the bishop.]*

The bishop says to the candidates:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a priest in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

† **The Charge**

The bishop addresses those to be ordained as deacons:

Deacons are called to serve the Church of God and to care for all whom they serve, especially the poor, the sick, the needy and those who are in trouble. They should have compassion for the weak and lonely and those who are oppressed and powerless. They are to preach the word of God and to work with the bishop and priests in leading the worship of the people, especially at Baptism and the Holy Eucharist. They are to be diligent in pastoral work and in service to the community.

Those who are called to be deacons are called to an ancient office within the Church. You are to be signs among the people of God that the Church is called to serve Christ in the world. You are to remember that Jesus washed his disciples' feet and commanded us to follow his example. Remember also that in serving others you are serving the Lord himself.

Bydd yr esgob yn annerch y rhai sydd i'w hordeinio'n offeiriaid:

Gelwir offeiriaid yn Eglwys Dduw i gydweithio â'u hesgob a'u cyd-offeiriaid a holl bobl Dduw fel gweision a bugeiliaid.

Yr ydych i gyhoeddi Gair yr Arglwydd, galw pobl i edifarhau, a rhoi gollyngdod, yn enw Crist, i'r sawl sy'n edifeiriol.

Yr ydych i fendithio a bedyddio, a llywyddu yn y Cymun Bendigaidd.

Yr ydych i ddysgu'r ffydd a gawsom gan yr Apostolion a'i chyhoeddi o'r newydd.

Yr ydych i arwain pobl Dduw i sancteiddrwydd buchedd, a hyrwyddo gweinidogaeth holl bobl Duw.

Yr ydych i anturio o'r newydd mewn cenhadaeth, a gweithio dros heddwch a chyfiawnder.

Yr ydych i weinidogaethu i'r claf a pharatoi'r rhai sy'n marw at eu marwolaeth.

Yr ydych i weddio ac i geryddu, i gynghori ac i annog, ac i arwain pobl Dduw trwy demtasiynau a dryswch y byd hwn fel y caffont eu hachub trwy Grist am byth.

Cofiwch yn ddiolchgar eich bod yn rhannu'r weinidogaeth hon a ymddiriedir i chwi â'i weinidogaeth Ef a fu farw ar y groes. Bydd yn gofyn am aberth a daw dioddefaint yn ei sgîl, ond, o'i byw'n ffyddlon, fe ddaw hefyd â llawenydd a tangnefedd i chwi. Bydd arnoch angen penderfyniad a dyfalbarhad, a chan na allwch gyflawni'r weinidogaeth hon o'ch nerth eich hunain, gweddiwch y bydd i'r Arglwydd adnewyddu eich galwad beunydd fel y galloch ddilyn y Bugail Da i ba le bynnag y bydd ef yn arwain.

Bydd yr esgob yn annerch pawb sydd i'w ordeinio:

Fy mrodyr a'm chwiorydd, gweddiwch yn ddi-baid. Llafuriwch yng ngwasanaeth yr Arglwydd. Ymwrolwch. Na ddioddefed neb am i chwi fod yn esgeulus. Gwasanaethwch Eglwys Crist. Adeiladwch Deyrnas Dduw. Llawenhewch yn yr Arglwydd.

† **Yr Arholi**

Cyn eich derbyn i urdd offeiriad neu ddiakon, gofynnaf i chwi ddatgan eich ymrwymiad i'r weinidogaeth hon ac i'r ffordd hon o fyw. Felly, gofynnaf:

A ydych yn derbyn bod yr Ysgrythur Lân yn cynnwys popeth angenrheidiol i iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd?

Ateb: Ydwyf.

A ydych yn credu athrawiaethau'r ffydd Gristnogol fel y derbyniodd yr Eglwys yng Nghymru hwy, ac a gynhaliwch chwi hwy?

Ateb: Yr wyf yn credu ac fe'u cynhaliaf.

A fyddwch chwi yn ffyddlon a diwyd yn cyhoeddi'r Efengyl ac yn gweinyddu sacramentau'r Cyfamod Newydd?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi fyddaf.

A wnewch chwi ymroi i weddio ac i astudio'r Ysgrythur Lân, ac a wnewch chwi barhau i'ch cymhwyso eich hunain ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

The bishop addresses those to be ordained as priests:

Priests in the Church of God are called to work with their bishop, their fellow priests and all the people of God as servants and shepherds.

You are to proclaim the Word of the Lord, to call people to repentance, and in Christ's name to absolve those who are penitent.

You are to bless, baptize and preside at the Holy Eucharist.

You are to teach the faith that comes to us from the Apostles and proclaim it afresh.

You are to lead the people of God into holiness of life, and encourage the ministry of all God's people.

You are to explore new ventures in mission and work for peace and justice.

You are to minister to the sick and prepare the dying for their death.

You are to pray and to admonish, to counsel and encourage, and guide God's people through the temptations and confusions of this world, that they may be saved through Christ for ever.

Remember with thanksgiving that this ministry now to be entrusted to you is a sharing in the ministry of him who died on the cross. It will require sacrifice and bring suffering, but, lived faithfully, it will also bring you joy and peace. You will need determination and perseverance, and because you cannot fulfil this ministry in your own strength, pray that each day the Lord will renew your calling that you may follow the Good Shepherd wherever he leads.

The bishop addresses all who are to be ordained:

My brothers and sisters: pray without ceasing; labour in the Lord's service; be of good courage; let no one suffer hurt through your neglect; serve the Church of Christ; build the Kingdom of God; rejoice in the Lord.

† **The Examination**

Before you are admitted to the order of priests or of deacons, I ask you to affirm your commitment to this ministry and way of life. Therefore I ask:

Do you accept the Holy Scriptures as containing all things necessary for salvation through Jesus Christ our Lord?

Answer: I do.

Do you believe the doctrines of the Christian faith as the Church in Wales has received them, and will you uphold them?

Answer: I believe them and will uphold them.

Will you be faithful and diligent in proclaiming the Gospel and in celebrating the sacraments of the New Covenant?

Answer: By the help of God, I will.

Will you be diligent in prayer, in studying the Holy Scriptures and in continuing to equip yourself for ministry in the Church?

Answer: By the help of God, I will.

A wnewch chwi dderbyn disgyblaeth yr Eglwys a rhoi dyledus barch i'r rhai a osodwyd mewn awdurdod arnoch?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi ymdrechu i hyrwyddo undod, tangnefedd a chariad ymhlith y rhai y byddwch yn eu gwasanaethu, ac a wnewch chwi arwain trwy anogaeth ac esiamp!?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydd yr esgob yn annerch y rhai sydd i'w hordeinio'n ddiagoniaid:

A wnewch chwi gydweithio â'r esgob a'r offeiriaid a holl bobl Dduw i gynorthwyo'r Eglwys i ddirnad anghenion a phryderon a gobeithion y byd?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydd yr esgob yn annerch y rhai sydd i'w hordeinio'n offeiriaid:

A wnewch chwi gydweithio â'ch esgob, eich cyd-offeiriaid a diaconiaid, a holl bobl Dduw i ddatblygu cenhadaeth yr Eglwys?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnewch chwi geisio adnabod ym mhobl Dduw y doniau a roddodd ef iddynt, fel y cymhwysir pob aelod i waith y weinidogaeth ac yr adeiledir felly mewn cariad gorff Crist?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydded i Dduw a wŷr gyfrinachau eich calonnau, roi i chwi'r nerth i wneud yr holl bethau hyn, trwy rym yr Ysbryd Glân. **Amen.**

Bydd yr esgob yn annerch y gynulleidfa:

Bobl Dduw, a ydych yn credu ac yn ymddiried bod y *personau hyn* yn deilwng i'w hordeinio?
Credwn eu bod yn deilwng. I Dduw y bo'r diolch.

A wnewch chwi eu *cefnogi* yn eu gweinidogaeth?
Fe'u cefnogwn.

The Ordination of Deacons and Priests

Will you accept the discipline of the Church and give due respect to those set in authority over you?

Answer: By the help of God, I will.

Will you endeavour to promote unity, peace and love among those you serve, and to lead by encouragement and example?

Answer: By the help of God, I will.

The bishop addresses those to be ordained deacon:

Will you work with the bishop, priests and all God's people to help the church discern the needs, concerns and hopes of the world?

Answer: By the help of God, I will.

The bishop addresses those to be ordained priest:

Will you work with the bishop, fellow priests, deacons and all God's people to develop the mission of the Church?

Answer: By the help of God, I will.

Will you seek to recognise in God's people the gifts he has given to them, that every member may be equipped for the work of ministry so that the body of Christ may be built up in love?

Answer: By the help of God, I will.

May God who knows the secrets of your heart give you strength to do all these things through the power of the Holy Spirit. **Amen**

The bishop addresses the congregation:

People of God, do you believe and trust that they are worthy to be ordained?
We trust that they are worthy: thanks be to God.

Will you support them in their ministry?
We will support them.

† **Litani** neu Ymbiliad arall

Penlinio

Dduw Dad,
trugarha wrthym.

Dduw Fab,
trugarha wrthym.

Dduw Ysbryd Glân,
trugarha wrthym.

Y Drindod sanctaidd, fendigaidd, ogoneddus,
trugarha wrthym.

Rhag drygioni a phechod, rhag balchder, rhodres a rhagrith;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Rhag diogi ac ariangarwch, rhag trahauster a chaledwch calon;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Ar dy Eglwys, i'w sancteiddio, a'i llenwi â chariad a gwirionedd;
Ac i roddi iddi'r undod hwnnw a ewyllysi di,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bobl y byd ac ar arweinwyr y cenhedloedd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y claf a'r anghenus ac ar bawb sydd mewn unrhyw adfyd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bawb a fedyddiwyd ac sy'n ymdrechu i fyw Efengyl Crist,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar [E], ein hesgob, ac ar bawb sy'n arwain Eglwys Dduw,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai a alwyd i wasanaethu yn ddiagoniaid ac offeiriaid,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y rhai [neu EE] sydd i'w hordeinio heddiw, ac ar y rhai y byddant yn eu gwasanaethu,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Gan ymlawenhau yng nghymdeithas [E] a'th holl saint, cyflwynwn [EE], cyflwynwn ein hunain a chyflwynwn win golydd i Grist ein Duw.

Bydd saib yn dilyn ar gyfer gweddi ddistaw.

Esgob:

Arglwydd trugarog, clyw ni a bendithia ni, ac megis y gelwaist ni i'th wasanaeth, gwna ni'n deilwng o'n galwad, trwy lesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

Gellir canu'r Veni Creator neu emyn arall sy'n ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân.

† **The Litany** *or other Intercession*

Kneel

God the Father,
have mercy on us.

God the Son,
have mercy on us.

God the Holy Spirit,
have mercy on us.

Holy, blessed and glorious Trinity,
have mercy on us.

From evil and sin, from pride, vanity and hypocrisy,
Good Lord, deliver us.

From idleness and love of money, from arrogance, and hardness of heart,
Good Lord, deliver us.

On your Church, to make it holy, to fill it with love and truth,
and to grant it that unity which is your will,
Lord, send your Spirit.

On the people of the world and the leaders of the nations,
Lord, send your Spirit.

On those who are sick, needy and in any kind of distress,
Lord, send your Spirit.

On all who are baptized and strive to live the Gospel of Christ,
Lord, send your Spirit.

On [N], our Bishop and all who lead the Church of God,
Lord, send your Spirit.

On those who are called to serve as deacons and priests,
Lord, send your Spirit.

On *those [or NN]* who are to be ordained today and those whom *they* will serve,
Lord, send your Spirit.

Rejoicing in the fellowship of [N] and all your saints, we commit [NN], ourselves and one another to Christ our God.

A period of silent prayer follows.

Bishop:

Merciful Lord, hear us and bless us, and as you have called us to your service, make us worthy of our calling, through Jesus Christ our Lord. **Amen**

The Veni Creator or another hymn invoking the Holy Spirit may be sung.

Ordeinio Diaconaid

Eistedd

Penlinia'r rhai sydd i'w hordeinio'n ddiagoniaid.

Bydd yr esgob yn estyn dwylo tuag atynt ac yn dweud:

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
Ac sy'n cadw ei addewid byth.

Drugarocaf Dad, moliannwn di a bendithiwn di
am iti, yn dy gariad mawr tuag atom,
anfon dy unig Fab Iesu Grist
i gymryd ffurf gwas ac i fyw yn ein plith.
Fe'i darostyngodd ei hun er ein mwyn,
gan fod yn ufudd hyd angau, ie angau ar groes.
Gan hynny, fe'i tra-dyrchefaist ef
a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.

Diolchwn iti, O Dad am iti alw dy wasanaethyddion hyn
i rannu yn y weinidogaeth hon a ymddiriedaist i'th Eglwys.

Bydd yr esgob yn arddodi dwylo ar ben pob ymgeisydd, ac yn dweud:

Anfon dy Ysbryd Glân ar dy was [E],
i swydd a gwaith diacon yn dy Eglwys.

Wedi arddodi dwylo ar ben pob ymgeisydd, â'r esgob ymlaen:

Dduw cariadlon, dyro i'th wasanaethyddion hyn ostyngeidrwydd, nerth a dyfalbarhad.
Megis y daeth dy Fab nid i'w wasanaethu ond i wasanaethu,
bydded iddynt fod yn ffyddlon mewn gwasanaeth,
yn barod i hyfforddi, yn ddiwyd mewn gweddi.
Bydded eu ffydd yn helaeth, a chariad yn sylfaen eu bywyd,
fel y ceisiant yn unig dy ogoniant di, yn awr a byth;
trwy Iesu Grist Ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

† Arwisgo

Arwisgir y diaconiaid sydd newydd gael eu hordeinio ag ystola.

† Cyflwyno'r Ysgrythurau

Dyry'r esgob y Testament Newydd i bob un ohonynt, a dweud:

Byddwch ffyddlon yn y weinidogaeth a ymddiriedir yn awr i chwi,
a gwasanaethwch bobl Dduw yn ei enw ef.

Bydd y diaconiaid yn mynd yn ôl i'w lleoedd.

† **The Ordination of Deacons**

Sit

Those who are to be ordained kneel.

The bishop stretches out his or her hands towards the candidates and says:

Praise God who made heaven and earth,
Who keeps his promise for ever.

We praise and bless you, most merciful Father,
because in your love for us, you sent your only Son Jesus Christ
to take the form of a servant and to live among us.
He humbled himself for our sake,
and in obedience accepted death, even death on a cross;
therefore you highly exalted him
and gave him the name that is above every name.

So Father, we thank you that you have called these your servants
to share this ministry entrusted to your Church.

The bishop lays his or her hands on the head of each candidate, and says:

Send your Holy Spirit upon your servant [N],
for the office and work of a deacon in your Church.

When all have received the laying-on of hands, the bishop continues:

Loving Father, give to these your servants humility, strength and perseverance.
As your Son came not to be served but to serve,
may they be faithful in service, ready to teach and constant in prayer.
May they abound in faith, be rooted in love and seek only your glory,
now and for ever;
through Jesus Christ our Lord,
who lives and reigns with you in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen**

† **Vesting**

The newly-ordained deacons are vested with a stole.

† **Presentation of the Scriptures**

The bishop gives each deacon a New Testament, and says:

Be faithful in that ministry which is now entrusted to you,
and serve God's people in his name.

The deacons return to their places.

† **Ordeinio Offeiriaid**

Saif yr esgob gyda'r offeiriaid sy'n cynorthwyo; penlinia'r rhai sydd i'w hordeinio'n offeiriaid.

Bydd yr esgob yn estyn dwylo tuag atynt ac yn dweud:

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
Ac sy'n cadw ei addewid am byth.

Arglwydd ein Duw, rhoddwn iti ddiolch a moliant
am iti, yn dy gariad mawr, ffurfio trwy'r byd
bobl sanctaidd yn eiddo i ti dy hun,
offeiriadaeth frenhinol, Eglwys gyffredinol.
Rhoddwn iti ddiolch a moliant
am alw dy bobl ym mhob oes i dystio i'th gariad achubol
ac i gyhoeddi newyddion da dy deyrnas.

Ac yn awr diolchwn iti am iti alw dy wasanaethyddion hyn
i rannu yng ngweinidogaeth sanctaidd Efengyl Crist,
Apostol ac Archoffeiriad ein ffydd a Bugail ein heneidiau.

Bydd yr esgob a'r offeiriaid yn arddodi eu dwylo ar ben pob ymgeisydd. Dywed yr esgob:

Anfon dy Ysbryd Glân ar dy was [E],
i swydd a gwaith offeiriad yn dy Eglwys.

Wedi i'r holl ymgeiswyr dderbyn arddodiad dwylo, â'r esgob ymlaen:

Dduw cariadlon, gelwaist dy wasanaethyddion hyn;
dyro iddynt galonnau tyner, doethineb a deall,
fel y cyflawnont y weinidogaeth hon yr ordeiniwyd hwy iddi.
Bydded iddynt fyw Efengyl iachawdwriaeth a'i chyhoeddi,
a dwyn iachâd i'r claf.
Bydded iddynt weinyddu'n ffyddlon sacramentau ein prynedigaeth,
a chyhoeddi maddeuant pechodau a bendithio yn dy enw.
Dyro iddynt amynedd a gobaith, tynerwch a dyfalbarhad,
i weithio gyda'th holl bobl,
fel y delo'r byd i adnabod dy ogoniant a'th gariad;
trwy Iesu Grist Ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, byth heb ddiwedd. **Amen.**

† **Arwisgo [Eneinio]**

Arwisgir yr offeiriaid sydd newydd gael eu hordeinio.

[Gall yr esgob eneinio eu dwylo ag olew crism a dweud:

Bydded i Dduw, a eneiiodd ei Grist â'r Ysbryd Glân pan fedyddiwyd ef,
dy eneinio a'th alluogi i gymodi ei bobl a'u bendithio.]

† **The Ordination of Priests**

The bishop stands with the priests who are to assist him or her; those who are to be ordained priest kneel.

The bishop stretches out his or her hands towards the candidates and says:

Praise God who made heaven and earth,
Who keeps his promise for ever.

Lord our God, we give you thanks and praise,
because in your great love, you have formed throughout the world
a holy people for your own possession,
a royal priesthood, a universal Church.

We give you thanks and praise
for calling your people in every age to witness to your saving love
and to proclaim the good news of your kingdom.

And now we give you thanks that you have called these your servants
to share in the sacred ministry of Christ,
the Apostle and High Priest of our faith and the Shepherd of our souls.

The bishop and the priests lay their hands on the head of each candidate. The bishop says:

Send your Holy Spirit upon your servant [N],
for the office and work of a priest in your Church.

When all have received the laying on of hands, the bishop continues:

Loving God, you have called these your servants;
Give them love, wisdom and understanding,
that they may carry out this ministry
to which they have been ordained.

May they live and proclaim the gospel of salvation
and bring healing to the sick.

May they faithfully celebrate the sacraments of our redemption
and absolve and bless in your name.

Give them patience and hope, gentleness and perseverance to work with all your people,
that the world may come to know your glory and your love;
through Jesus Christ our Lord,

who lives and reigns with you in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen**

† **Vesting [Anointing]**

The newly-ordained priests are vested.

[The bishop may anoint their hands with the oil of chrism and say:

God, who at the baptism of Christ our Lord anointed him with the Holy Spirit,
anoint and empower you to reconcile and bless his people.]

† **Cyflwyno'r Ysgrythurau, y Cwpan a'r Plât**

Dyry'r esgob yn eu dwylo y Beibl, a chwpan a phlât cymun, gan ddweud:

Bydd yn oruchwyliwr ffyddlon i Air Duw a'i sacramentau sanctaidd.

Bydd yr esgob yn cyflwyno pawb sydd newydd gael eu hordeinio i'r bobl.

Sefyll

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

† **Cymryd a Bara a'r Gwin**

† **Gweddi Ewcharistaidd**

6. Y Cymun

† **Torri'r Bara**

† **Y Cymun**

7. Yr Anfon Allan

† **Presentation of the Scriptures, Chalice and Paten**

The bishop places in their hands the Bible and a chalice and paten, saying:

Be a faithful steward of the word of God and of his holy sacraments.

The bishop presents the newly-ordained to the people.

Stand

4. The Peace

5. The Thanksgiving

† **Taking the Bread and Wine**

† **Eucharistic Prayer**

6. The Communion


† **Breaking of the Bread**

† **Communion**

7. The Sending Out

Yr Eglwys yng Nghymru

**TREFN AR GYFER
CYSEGRU ESGOB
YN Y CYMUN BENDIGAID**



**AN ORDER FOR
THE CONSECRATION OF A BISHOP
AT THE HOLY EUCHARIST**

The Church in Wales

2004

STRWYTHUR

1. Y Dyfod Ynghyd

- † Cyfarchiad
- † Gweddi
- † Rhagarweiniad a Chyflwyniad
- † Gloria in Excelsis
- † Colect

2. Cyhoeddi'r Gair

- † Darlleniad o'r Hen Destament
- † Salm
- † Darlleniad o'r Testament Newydd
- † Efengyl
- † Pregeth
- † Cadarnhau'r Ffydd

3. Yr Ordeinio

- † Mandat
- † Siars
- † Arholi
- † Litani
- † Ordeinio
- † [Eneinio]
- † Cyflwyno Modrwy, Croes a Meitr

4. Y Tangnefedd

5. Y Diolch

- † Cymryd y Bara a'r Gwin
- † Gweddi Ewcharistaidd

6. Y Cymun

- † Torri'r Bara
- † Y Cymun

7. Yr Anfon Allan

- † Cyfwyno'r Beibl a'r Ffon Fugeiliol
- † Y Fendith

STRUCTURE

1. **The Gathering**

- † Greeting
- † Prayer
- † Introduction and Presentation
- † Gloria in Excelsis
- † Collect

2. **The Proclamation of The Word**

- † Old Testament reading
- † Psalm
- † New Testament reading
- † Gospel
- † Sermon
- † Affirmation of Faith

3. **The Ordination**

- † Mandate
- † Charge
- † Examination
- † Litany
- † Ordination
- † [Anointing]
- † Presentation of Ring, Cross and Mitre

4. **The Peace**

5. **The Thanksgiving**

- † Taking the Bread and Wine
- † Eucharistic Prayer

6. **The Communion**

- † Breaking of the Bread
- † Communion

7. **The Sending Out**

- † Presentation of the Bible and Pastoral Staff
- † The Blessing

CYSEGRU ESGOB

I. Y Dyfod Ynghyd

† **Cyfarchiad**

† **Gweddi**

† **Rhagarweiniad a Chyflwyniad**

Eistedd

Archesgob:

Frodyr a chwirydd, Corff Crist, pobl Dduw a phreswylfod yr Ysbryd Glân ydyw'r Eglwys. Gelwir pawb a unwyd â Christ trwy fedydd i'w wasanaethu yn yr Eglwys ac yn y byd.

Oddi mewn i'r weinidogaeth hon, a ymddiriedodd Crist i'w Eglwys, gelwir esgobion i fod yn ben gweinidogion a bugeiliaid ac i uno holl bobl Dduw. Gyda'u cyd-esgobion y maent i warchod y ffydd a dderbyniasom oddi wrth yr apostolion ac i gyhoeddi efengyl teyrnas Dduw. Y maent i arwain yr Eglwys ac i ymarfer awdurdod yng nghymuned y ffydd. Y maent i ordeinio diaconiaid ac offeiriaid ac i adeiladu Corff Crist mewn ufudd-dod cariadus i ewylllys Duw.

Daethom ynghyd heddiw i ordeinio i urdd esgob [E] y credwn i Dduw ei g/alw i'r weinidogaeth hon.

Byddwn yn gweddïo drosto/i ac yn arddodi dwylo arno/i, gan ymbil ar yr Ysbryd Glân ar iddo/i wasanaethu'n ffyddlon ymhlith pobl Duw.

Byddwn yn ei g/ wisgo â gwisg esgob, ac yn cyflwyno iddo/i arwyddion allanol y weinidogaeth a ymddiriedir iddo/i.

Byddwn yn ei g/chroesawu i'n plith fel brawd/chwaer yng Nghrist, ac yn ei h/anfon allan yn enw Iesu y Bugail Da.

Bydd yr archesgob yn eistedd a chyflwynir yr ymgeisydd.

Barchedcaf Dad yn Nuw, cyflwynwn [E] i'w h/ordeinio a'i g/chysegru'n esgob yn Eglwys Dduw.

Dywed yr archesgob wrth yr ymgeisydd:

[E], a wyt yn credu i Dduw dy alw i swydd a gwaith esgob yn ei Eglwys?

Ateb: Yr wyf yn credu i Dduw fy ngalw.

THE CONSECRATION OF A BISHOP

I. The Gathering

† **Greeting**

† **Prayer**

† **Introduction and Presentation**

Sit

Archbishop:

Brothers and sisters, the Church is the Body of Christ, the people of God and the dwelling-place of the Holy Spirit. All who are united with Christ through baptism are called to serve him in the Church and in the world.

Within this ministry, entrusted by Christ to his Church, bishops are called to be chief pastors and shepherds and to unite all God's people. With their fellow bishops they are to guard the faith that comes to us from the apostles and proclaim the gospel of God's kingdom. They are to ordain deacons and priests and build up the Body of Christ in loving obedience to the will of God.

We have come together today to ordain [N] to the order of bishops whom we believe God has called to his ministry.

We will pray for him/her and lay hands upon him/her, invoking the Holy Spirit that he/she may serve faithfully among God's people.

We will clothe him/her with the vesture of priests and present him/her with the outward signs of the ministry which will be entrusted to him/her.

We will welcome him/her among us as a brother/sister in Christ and we shall send him/her out in the name of Jesus the Good Shepherd.

The archbishop sits and the candidate is presented.

Most Reverend Father in God, we present [N] to be ordained and consecrated a bishop in the Church of God.

The archbishop says to the bishop-elect:

[N], do you believe that God has called you to the office and work of a bishop in his Church?

Answer: I believe that God has called me.

2. Cyhoeddi'r Gair

- † **Darlleniad o'r Hen Destament**
- † **Salm**
- † **Darlleniad o'r Testament Newydd**
- † **Efengyl**
- † **Pregeth**
- † **Cadarnhau'r Ffydd**

3. Yr Ordeinio

† **Y Mandat**

Eistedd

Archesgob:

Darllener mandat y cysegru.

Bydd Cofrestrydd yr Archesgob yn darllen y mandat.

Archesgob:

Dyma [E], yr ydym yn bwriadu ei h/ordeinio a'i g/chysegru i urdd esgob.
Gofynnaf i chwi felly ddatgan eich bod yn cydsynio i'r cysegru.

A ydych yn ymddiried ei f/bod yn deilwng i'w h/ordeinio'n esgob?
Yr ydym yn ymddiried ei f/bod yn deilwng. I Dduw y bo'r diolch.

A wnewch chwi ei g/chefnogi yn ei g/weinidogaeth?
Fe'i cefnogwn.

[E], yr wyt i arwain pobl Dduw mewn addoliad, tystiolaeth a chenhadaeth. Yr wyt i'w harwain yn ffordd y gwirionedd a dysgu'r ffydd a dderbynasom. Felly, gweddia bob amser am arweiniad yr Ysbryd Glân fel y bo dy fuchedd a'th weinidogaeth yn sanctaidd ac yn gymeradwy gan Dduw.

† **Y Siars**

Bydd yr archesgob yn annerch yr esgob etholedig:

Gelwir esgobion i wasanaethu pobl Dduw ac i ofalu amdanynt. Gan ddwyn ar gof y Bugail Da, a roes ei fywyd dros ei ddefaid, y maent i garu'r rhai a osodwyd yn eu gofal ac i weddio drostynt, gan adnabod eu pobl a bod yn adnabyddus iddynt. Y maent i arwain eu pobl mewn gweddi a mawl, a llywyddu yn y Cymun Bendigaidd. Y maent i fedyddio a chonffyrmio, i faddau

2. The Proclamation of The Word

- † **Old Testament reading**
- † **Psalm**
- † **New Testament reading**
- † **Gospel**
- † **Sermon**
- † **Affirmation of Faith**

3. The Ordination

† **The Mandate**

Sit

Archbishop:

Let the mandate for the consecration be read.

The Archbishop's Registrar reads the mandate.

Archbishop:

This is [N], whom we propose to ordain and consecrate to the order of bishops.
I therefore ask you to declare your assent to his consecration.

Do you trust that he/she is worthy to be ordained bishop?

We trust that he/she is worthy: thanks be to God.

Will you support him/her in his ministry?

We will support him/her.

[N], you are to lead God's people in worship, witness and mission. You are to guide them in the way of truth and teach the faith we have received. Therefore pray always for the guidance of the Holy Spirit that your life and ministry may be holy and acceptable to God.

† **The Charge**

The archbishop addresses the bishop-elect:

Bishops are called to serve and care for the people of God. Mindful of the Good Shepherd, who laid down his life for his sheep, they are to love and pray for those committed to their charge, knowing their people and being known by them. They are to lead their people in prayer and praise and to preside at the Holy Eucharist. They are to baptise and confirm,

pechodau ac i fendithio, gan faethu pobl Dduw ym mywyd yr Ysbryd a'u harwain ar hyd llwybrau sancteiddrwydd. Y maent i ddirnad a meithrin doniau'r Ysbryd ym mhawb sy'n dilyn Crist, a'u comisiynu i weinidogaethu yn ei enw ef. Y maent i ordeinio diaconiaid ac offeriaid, ac i gymryd rhan yn ordeinio eu cyd-esgobion.

Fel pen bugeiliaid, y mae'n ddyletswydd arnynt gadw undod yr Eglwys, llefaru yn enw Duw a dehongli efengyl iachawdwriaeth. Ynghyd â'u clerigion a'r bobl, y maent i hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys ac i ofalu am bawb, yn enwedig y tlawd, y digartref a'r anghenus.

Gan ddilyn esiampl yr apostolion, y maent i gyhoeddi'r efengyl, i lefaru'r gwirionedd yn ddewr ac i weithio dros gyfiawnder a heddwch. Y maent i fod yn drugarog, ond yn gadarn; y maent i ddisgyblu, ond gyda thrugaredd.

Fy mrawd/chwaer, bydded dy gariad yn ddiragrith. Casâ ddrygioni. Glynw wrth ddaioni. Dal ati i weddio. Bydd yn wrol. Na wangelonna byth. Na ddiodefed neb am i ti fod yn esgeulus. Paid â bod ar frys i arddodi dwylo ar neb. Pregetha'r efengyl. Lachâ'r cleifion. Llawenha yn yr Arglwydd.

† Yr Arholi

Cyn dy dderbyn i urdd esgob, gofynnaf iti gadarnhau dy ymrwymiad i'r weinidogaeth hon ac i'r ffordd hon o fyw. Felly, gofynnaf:

A wyt yn derbyn bod yr Ysgrythur Lân yn cynnwys popeth angenrheidiol i iachawdwriaeth trwy Iesu Grist ein Harglwydd?

Ateb: Ydwyf.

A wnei di gynnal a dysgu'n ddiwyd y ffydd Gristnogol fel y derbyniodd yr Eglwys yng Nghymru hi?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnei di hyrwyddo tangnefedd a chymod yn yr Eglwys ac yn y byd; ac a wnei di ymdrechu i wneud yn weladwy undod Eglwys Crist?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A fyddi di yn gariadus a hael, er mwyn Crist, wrth y rhai sydd mewn angen; ac a wnei di lefaru dros y rhai nad oes ganddynt neb i lefaru drostynt?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnei di drefnu dy fywyd yn ffordd Crist, a chroesawu pawb yn ei enw ef?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnei di dderbyn disgyblaeth yr Eglwys, ac ymarfer awdurdod gyda chyfiawnder, cwrteisi a chariad?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnei di weithio gyda phobl Dduw a chyda'r diaconiaid a'r offeriaid i gyhoeddi newyddion da Crist yn yr esgobaeth y byddi yn gwasanaethu ynddi?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

A wnei di dy ran gyda'th gyd-esgobion i wasanaethu pobl y Dalaith hon?

Ateb: Trwy gymorth Duw, mi wnaif.

Bydded i Dduw, a wŷr gyfrinachau dy galon roi iti'r nerth, trwy rym yr Ysbryd Glân, i wneud yr holl bethau hyn. **Amen**

absolve and bless, nurturing God's people in the life of the Spirit, and leading them in the way of holiness. They are to nurture and discern the gifts of the Spirit in all who follow Christ, commissioning them to minister in his name. They are to ordain deacons and priests and share in the ordination of their fellow bishops.

As chief pastors, it is their duty to maintain the unity of the Church, speaking in the name of God, and interpreting the gospel of salvation. Together with their clergy and people they are to promote the church's mission and have a special care for all, and especially the poor, the outcast and the needy.

Following the example of the apostles, they are to proclaim the gospel, boldly speak the truth, and work for justice and peace. They are to be merciful, but with firmness, and to minister discipline but with mercy.

My brother/sister, let love be genuine; hate what is evil; hold fast to what is good. Pray without ceasing; be of good courage; never lose heart; let no one suffer hurt through your neglect; lay hands suddenly on no-one; preach the gospel; heal the sick; rejoice in the Lord.

† The Examination

Before you are admitted to the order of bishops, I ask you to affirm your commitment to this ministry and way of life. Therefore I ask:

Do you accept the Holy Scriptures as containing all things necessary for salvation through Jesus Christ our Lord?

Answer: I do.

Will you diligently teach and uphold the Christian faith as the Church in Wales has received it?

Answer: By the help of God, I will.

Will you promote peace and reconciliation in the Church and in the world; and will you strive to make visible the unity of Christ's Church?

Answer: By the help of God, I will.

Will you be loving and generous for Christ's sake to those who are in need, and speak for those who have no-one to speak for them?

Answer: By the help of God, I will.

Will you fashion your life according to the way of Christ, and welcome all in his name?

Answer: By the help of God, I will.

Will you accept the discipline of the Church, and exercise authority with justice, courtesy and love?

Answer: By the help of God, I will.

Will you work with God's people and with the deacons and priests to proclaim the good news of Christ in the diocese in which you shall serve?

Answer: By the help of God, I will.

Will you play your part with your fellow bishops in serving the people of this Province?

Answer: By the help of God, I will.

May God who knows the secrets of your heart give you strength to do all these things through the power of the Holy Spirit. **Amen**

† **Litani** neu Ymbiliad arall

Penlinio

Dduw Dad,
trugarha wrthym.

Dduw Fab,
trugarha wrthym.

Dduw Ysbryd Glân,
trugarha wrthym.

Y Drindod sanctaidd, fendigaidd, ogoneddus,
trugarha wrthym.

Rhag drygioni a phechod, rhag balchder, rhodres a rhagrith;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Rhag diogi ac ariangarwch, rhag trahauster a chaledwch calon;
Gwared ni, Arglwydd daionus.

Ar dy Eglwys, i'w sancteiddio, a'i llenwi â chariad a gwirionedd;
ac i roddi iddi'r undod hwnnw a ewyllysi di.
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bobl y byd ac ar arweinwyr y cenhedloedd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar y claf a'r anghenus ac ar bawb sydd mewn unrhyw adfyd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bawb a fedyddiwyd ac sy'n ymdrechu i fyw Efengyl Crist,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar [E] ein harchesgob, ac ar yr holl esgobion, offeiriaid a diaconiaid,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar [E] a elwir i wasanaethu yn esgob yn yr Eglwys, ac ar Esgobaeth [...],
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Ar bawb sy'n ceisio hyrwyddo undod a chenhadaeth yr Eglwys a chyhoeddi dy efengyl i'r byd,
Arglwydd, anfon dy Ysbryd.

Gan ymlawenhau yng nghymdeithas [E] a'th holl saint, cyflwynwn [E], cyflwynwn ein hunain, a
chyflwynwn ein gilydd i Grist ein Duw.
I Ti, O Arglwydd.

Bydd saib yn dilyn ar gyfer gweddi ddistaw.

Archesgob:

Arglwydd trugarog, clyw ni a bendithia ni, ac megis y gelwaist ni i'th wasanaeth,
gwna ni'n deilwng o'n galwad, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

Gellir canu'r Veni Creator neu emyn arall sy'n ymbil am gymorth yr Ysbryd Glân.

† **The Litany** or other Intercession

Kneel

God the Father,
have mercy on us.

God the Son,
have mercy on us.

God the Holy Spirit,
have mercy on us.

Holy, blessed and glorious Trinity,
have mercy on us.

From evil and sin, from pride, vanity and hypocrisy,
Good Lord, deliver us.

From idleness and love of money, from arrogance and hardness of heart,
Good Lord, deliver us.

On your Church, to make it holy, to fill it with love and truth,
and to grant it that unity which is your will,
Lord, send your Spirit.

On the people of the world and the leaders of the nations,
Lord, send your Spirit.

On those who are sick, needy and in any kind of distress,
Lord, send your Spirit.

On all who are baptized and strive to live the Gospel of Christ,
Lord, send your Spirit.

On [N]our archbishop and all bishops, priests and deacons,
Lord, send your Spirit.

On [N] who is called to serve as a bishop in the Church and on the Diocese of [...],
Lord, send your Spirit.

On all who seek to further the unity and mission of the Church, and to proclaim your gospel
in the world,
Lord, send your Spirit.

Rejoicing in the fellowship of [N] and all your saints, we commit [N], ourselves and one
another to Christ our God.
To you, O Lord.

A period of silent prayer follows.

Archbishop:

Merciful Lord, hear us and bless us, and as you have called us to your service,
make us worthy of our calling, through Jesus Christ our Lord. **Amen**

The Veni Creator or another hymn invoking the Holy Spirit may be sung.

Saif yr archesgob, ynghyd â'r esgobion sy'n cynorthwyo.

Penlinia'r esgob etholedig.

Bydd yr archesgob yn estyn dwylo tuag atoli:

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
Ac sy'n cadw ei addewid byth.

Arglwydd ein Duw, rhoddwn iti ddiolch a moliant
am iti, yn dy gariad mawr, ffurfio trwy'r byd
bobl sanctaidd yn eiddo i ti dy hun,
offeiriadaeth frenhinol, Eglwys gyffredinol.

Rhoddwn iti ddiolch a moliant
am alw dy bobl ym mhob oes i dystio i'th gariad achubol
ac i gyhoeddi newyddion da dy deyrnas.

Rhoddwn iti ddiolch a moliant am iti alw dy was hwn/wasanaethyddes hon
i rannu yn y weinidogaeth hon a ymddiriedwyd i'th Eglwys.

Bydd yr archesgob a'r esgobion yn arddodi eu dwylo ar ben yr ymgeisydd.

Dywed yr archesgob:

Anfon dy Ysbryd Glân ar dy was / wasanaethyddes [E], i swydd a gwaith esgob yn dy Eglwys.
Llanw ef /hi â'r gras a'r grym a roddaist i'th apostolion, fel y byddo'n wir fugail, yn gofalu am
dy bobl ac yn eu harwain yn y gwaith o gyhoeddi efengyl achubol dy gariad.

Â'r archesgob ymlaen:

Dad nefol, trwy dy was hwn / wasanaethyddes hon, cynyddu dy Eglwys,
adnewyddu ei gweinidogaeth, ac una ei haelodau
yn gymdeithas sanctaidd mewn gwirionedd a chariad.
Dyro i E nerth i warchod y ffydd a'r sacramentau.
Dyro iddo /i, fel athro, ddawn doethineb a gras gostyngeiddrwydd,
fel y bo iddo /i ddefnyddio ei h/awdurdod i iacháu, nid i niweidio,
i adeiladu, nid i ddinistrio.
Amddiffyn ef/hi rhag pob drwg,
fel, ac yntau/hithau'n warchodwr dros dy deulu ac yn llysgennad i Grist,
y byddo'n ddi-fai ger dy fron;
a dwg ef/hi, a phawb y bydd yn eu gwasanaethu,
i Deyrnas dy Fab ein Harglwydd,
y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
bob gogoniant a moliant ac anrhydedd ac addoliad,
yn awr a byth. **Amen.**

† **The Ordination**

SIT

The archbishop stands, with the bishops who are to assist him or her.

The bishop-elect kneels.

The archbishop stretches out his or her hands towards the candidate and says:

Praise God who made heaven and earth,
Who keeps his promise for ever.

Lord our God, we praise and glorify you
because in your great love you have formed throughout the world
a holy people for your own possession,
a royal priesthood, a universal Church.

We praise and glorify you
for calling your people in very age to witness to your saving love
and to proclaim the good news of your kingdom.

We praise and glorify you that you have called this your servant
to share in this ministry entrusted to your Church.

The archbishop and the bishops lay their hands on the head of the candidate.

The archbishop says:

Send your Holy Spirit upon your servant [N], for the office and work of a bishop in your Church. Fill him/her with the grace and power which you gave to your apostles, that as a true shepherd he/she may care for your people and lead them in proclaiming the saving gospel of your love.

The archbishop continues:

Through this your servant, heavenly Father,
increase your Church, renew her ministry and unite her members
in a holy fellowship of truth and love.
Give [N] strength to be a guardian of the faith and sacraments.
As a teacher, give him/her the gift of wisdom and the grace of humility
that he may use his/her authority to heal and not to hurt,
to build up and not to destroy.
Defend him from all evil,
that as a steward over your household and an ambassador for Christ,
he/she may be blameless before you;
and bring him/her with all whom he/she shall serve
into the Kingdom of your Son our Lord,
to whom with you and the Holy Spirit
belong glory and praise, honour and worship,
now and for ever. **Amen**

† **[Eneinio]**

[Gall yr archesgob eneinio'r esgob newydd ag olew crism, a dweud:

Bydded i'r Duw a'th alwodd dy eneinio a'th gysegru i arwain yr Eglwys mewn sancteiddrwydd a gwirionedd. **Amen.**]

† **Cyflwyno Modrwy, Croes a Meitr**

Cyflwyno'r Archesgob fodrwy esgob i'r esgob newydd, a dweud:

Bydd ffyddlon i Grist a'i bobl. Bydd addfwyn a hael. Bydd gariadus a chadarn.

Cyflwynir brongroes i'r esgob newydd:

Pregetha ffydd y Crist croeshoeliedig, a thystia ar air a gweithred i'r Arglwydd atgyfodedig.

Cyflwynir meitr i'r esgob newydd:

Rhodded yr Ysbryd Glân iti arweiniad a doethineb ym mhob peth.

Bydd yr archesgob yn cyflwyno'r esgob newydd i'r bobl.

Sefyll

4. **Y Tangnefedd**

5. **Y Diolch**

† Cymryd y Bara a'r Gwin

† Gweddi Ewcharistaidd

6. **Y Cymun**

† Torri'r Bara

† Y Cymun

† **[Anointing]**

[The archbishop may anoint the new bishop with the oil of chrism, saying:

May God who has called you anoint and consecrate you
to lead the Church in holiness and truth. **Amen]**

† **Presentation of Ring, Cross and Mitre**

The archbishop presents the new bishop with the episcopal ring, saying:

Be faithful to Christ and his people. Be gentle and generous. Be loving and firm.

The new bishop is presented with a pectoral cross:

Preach the faith of Christ crucified and witness to the risen Lord in word and deed.

The new bishop is presented with a mitre:

May the Holy Spirit be your guide and wisdom in all things.

The archbishop presents the new bishop to the people.

Stand

4. The Peace

5. The Thanksgiving

† Taking the Bread and Wine

† Eucharistic Prayer

6. The Communion

† Breaking of the Bread

† Communion

7. Yr Anfon Allan

† **Cyflwyno'r Beibl a'r Ffon Fugeiliol**

Cyflwyno'r archesgob Feibl i'r esgob newydd:

Derbyn yr Ysgrythurau Sanctaidd: dyma eiriau bywyd tragwyddol.

Cyflwyno'r archesgob ffon fugeiliol i'r esgob newydd:

Gwylia dros braidd Crist a ymddiriedwyd i'th ofal.

† **Y Fendith**

7. The Sending Out

† The Presentation of The Bible and a Pastoral Staff

The archbishop presents the new bishop with a Bible:

Receive the Holy Scriptures: here are the words of eternal life.

The archbishop presents the new bishop with a pastoral staff:

Keep watch over the flock of Christ which has been entrusted to your care.

† The Blessing

